Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
Ceredigion
Public Services Board

Caru·Love Ceredigion

| Eitem | Dyddiad | |
|---|---|---|
| | 02/06/2025 | |
| Teitl | | Er |
| Siarter Gwaith Teg BGC Ceredigion | | *Penderfyniad* |
| Crynodeb o'r Materion | | |

Yng nghyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd aelodau drafodaeth ar bwnc **Gwaith Teg**. O ganlyniad, cytunwyd y byddai Is-grŵp Tlodi'r BGC yn hwyluso Grŵp Gorchwyl a Gorffen i archwilio'r mater yn fwy manwl.

Daeth y grŵp hwn ag arweinwyr Adnoddau Pobl a Chaffael ynghyd o sefydliadau allweddol, gan gynnwys:

- Cyngor Sir Ceredigion
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
- Coleg Ceredigion
- Heddlu Dyfed Powys
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Cyfarfu'r grŵp dair gwaith i nodi arferion cyfredol ac awgrymu cyfleoedd ar gyfer gwella.

Cyflwynwyd adroddiad interim i BGC Ceredigion ym mis Rhagfyr 2024, yn amlinellu 15 o argymhellion. Ymhlith y rhain roedd cynnig i ddatblygu a chyflwyno Siarter Gwaith Teg drafft i'r BGC cymeradwyo a gweithredu. Cymeradwyodd y BGC yr argymhellion.

Mae'r **Siarter Gwaith Teg** bellach yn cael ei chyflwyno i aelodau'r BGC i'w cofrestru'n ffurfiol, gan ddangos ymrwymiad y Bwrdd ar y cyd i hyrwyddo egwyddorion Gwaith Teg ledled Ceredigion.

Rhagwelir y bydd yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Siarter yn cael eu cyflawni'n llawn erbyn mis Mawrth 2028, gan alinio â chasgliad y Cynllun Llesiant presennol.

Er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder, argymhellir bod monitro a gwerthuso cynnydd yn cael eu hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol BGC Ceredigion.

| Goblygiadau Ariannol |
| --- |
| Dim ar hyn o bryd. |
| Argymhellion |
| Bod aelodau'r BGC yn cymryd Siarter Gwaith Teg BGC Ceredigion drwy eu fframweithiau llywodraethu priodol i'w cymeradwyo'n ffurfiol.<br>Bod aelodau'r BGC yn darparu adroddiad blynyddol sy'n manylu ar eu cynnydd ar yr ymrwymiadau a amlinellir yn y Siarter Gwaith Teg. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol BGC Ceredigion a'i gyhoeddi ar dudalen we'r BGC. |
| Atodiadau |
| 1. Siarter Gwaith Teg Ceredigion<br>2. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Gwaith Teg ar wefan Llywodraeth Cymru: Canllaw i waith teg \| LLYW.CYMRU |
| Swyddog Adrodd |
| Cathryn Morgan, Rheolydd Cydraddoldeb a Chynhwysiant<br>Cyngor Sir Ceredigion. |

**Atodiad 1**

# Siarter Gwaith Teg BGC Ceredigion 2025 – 2028 (Drafft)

Mae gwaith yn gonglfaen allweddol ar gyfer iechyd a llesiant. Mae iechyd da yn cefnogi gwaith a'r economi. Ond nid dim ond unrhyw fath o waith sy'n bwysig i iechyd a lles – mae'n ymwneud â gwaith teg.

“Ystyr gwaith teg yw bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo, yn cael eu clywed ac yn cael eu cynrychioli’n deg, bod ganddynt sicrwydd a'u bod yn gallu dod yn eu blaen mewn amgylchedd iach a chynhwysol, lle mae hawliau’n cael eu parchu." (Gwaith Teg Cymru - Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg 2019).




Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi ymrwymo i'r chwe egwyddor hyn o Waith Teg. Byddwn yn cyflawni'r camau gweithredu yn y Siarter hon yn ystod cylch bywyd ein Cynllun Llesiant Lleol presennol sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2028.

Byddwn yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflawni'r Siarter hon bob blwyddyn, fel rhan o Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion.

Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan - Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion - Cyngor Sir Ceredigion.

## Byddwn ni'n:

- Gwneud mwy i estyn allan at leisiau sydd wedi'u tangynrychioli yn ein gweithluoedd.
- Symleiddio ein polisïau gweithlu ac amlygu gwybodaeth allweddol fel eu bod yn hygyrch i bobl o bob gallu.
- Cefnogi ein gilydd i symud ymlaen fel cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.
- Archwilio cyfleoedd i gynnig mwy o leoliadau gwaith i bobl yng Ngheredigion sydd yn ddi-waith neu nad oes ganddynt lawer o brofiad o waith.
- Archwilio a hyrwyddo gwahanol ddulliau o weithio hyblyg fel bod y rolau rydyn ni'n eu hysbysebu yng Ngheredigion mor gynhwysol a hygyrch â phosibl.
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer mwy o gydweithio ar gynlluniau prentisiaethau yng Ngheredigion rhwng sefydliadau BGC ac o fewn sefydliadau'r BGC.
- Archwilio'r potensial o wneud cynlluniau prentisiaethau presennol yng Ngheredigion yn fwy hygyrch, i gyflogwyr ac i brentisiaid potensial.
- Archwilio'r potensial i sefydlu trefniadau i godi ymwybyddiaeth o ragolygon gyrfa a chyfleoedd gwaith ac i ddatblygu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer secondiadau a chyfnewid gwaith i rannu arfer gorau.
- Sicrhau bod egwyddorion Gwaith Teg yn cael eu hystyried fel rhan o'n prosesau tendro a monitro contractau.
- Ystyried arferion amrywiaeth a chynhwysiant y darparwyr a chyflenwyr yr ydym yn eu caffael, yn gymesur â maint a math y contract.
- Nodi ffyrdd o wella gallu contractwyr i ddarparu gwerth cymdeithasol ar gontractau mwy.
- Parhau i fynychu rhwydweithiau lleol a chenedlaethol i rannu arferion caffael da.
- Sicrhau bod holl grwpiau cyflenwi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn datblygu meddylfryd Gwaith Teg ac yn cynnwys hyn yn eu cylch gorchwyl ac wrth wraidd polisïau a chynlluniau.

I gael rhagor o wybodaeth am Waith Teg, ewch i Gwaith teg ar gyfer iechyd, llesiant a thegwch - Iechyd Cyhoeddus Cymru